BYW I WNEUD EWYLLYS DUW YN UNIG

Nodyn i'r siaradwr:
Esbonia sut y daeth pobl yn gaeth i bechod, a sut mae rhyddid ar gael trwy weithredu ffydd ym mhridwerth Crist. Dylai ein ffydd yn y pridwerth a'n diolchgarwch amdano effeithio ar ein ffordd o fyw

MAE YSBRYD ANNIBYNNOL YN AMLWG YN Y GYMDEITHAS GYFOES O'N CWMPAS (3 mun.)

Nid yw dibynnu'n llwyr ar eraill yn ddymunol inni, felly mae rhywfaint o annibyniaeth i'w croesawu

Ond mae'r byd cyfoes wedi'i feistroli gan ysbryd anghytbwys, annibynnol, ac amharchus tuag at Dduw

Satan yw ffynhonnell yr ysbryd treiddiol hwn (Eff 2:2)

Dyma ysbryd cythreulig sy'n annog pobl i wrthryfela yn erbyn unrhyw awdurdod ac unrhyw beth sy'n ffrwyno'u chwantau (*lv* 53-54 ¶7-8)

MAE GWIR RYDDID YNGHLWM WRTH DDIBYNIAETH AR DDUW A CHRIST (10 mun.)

Yn nhyb eu hunain, mae rhan helaeth o'r ddynoliaeth yn rhydd, ond caeth i bechod ydyn nhw mewn gwirionedd **[Darllena Rhufeiniaid 6:16]**

Mae rhai yn tyfu i fyny mewn gwledydd lle mae'r syniad o fod yn bechadur yn ddieithr, ond i eraill nid yw pechod yn bodoli (*w11*-E 6/15 8-9 ¶9-12)

Yn ôl y Beibl, pobl wedi'u creu heb bechod oedd Adda ac Efa

Os roedden nhw'n ufudd i Dduw roedd bywyd tragwyddol ar gael (Ge 2:16, 17)

Yn unol â'i anufudd-dod pengaled, fe ddewisodd Adda annibyniaeth o Dduw, ac fe ddaeth yn bechadur (1Ti 2:14)

Collodd Adda'r gobaith o fywyd tragwyddol iddo'i hun ac i'w holl ddisgynyddion (Ge 3:19; Rhu 5:12)

Darparodd Jehofa Dduw bridwerth cariadus er mwyn rhyddhau'r ddynoliaeth o bechod a marwolaeth **[Darllena Rhufeiniaid 6:23]**

Y pridwerth yw sail maddeuant pechodau; mae'n rhaid inni ymarfer ffydd ynddo (*w10*-E 8/15 13-14 ¶8-11)

Mae'r pridwerth yn caniatáu inni fwynhau gwir ryddid ac yn rhoi inni'r gobaith o fywyd tragwyddol

BYW I WNEUD EWYLLYS JEHOFA (14 mun.)

Dylai pawb ddangos gwerthfawrogiad tuag at Jehofa, Ffynhonnell bywyd, a thuag at ei Fab, Iesu Grist, a roddodd ei fywyd dros y ddynoliaeth (Mth 20:28; Act 17:26-28)

Dangoswn ein gwerthfawrogiad drwy ddewis gwneud ewyllys Duw o flaen ein hewyllys ni **[Darllena 2 Corinthiaid 5:14, 15]**

I wneud ewyllys Duw, mae'n rhaid inni gamu ymlaen i ymgysegru, i gael ein bedyddio yn un o Dystion Jehofa, os nad ydyn ni wedi gwneud yn barod

Nid yw mwynhau dysgeidiaethau'r Beibl a chwmni'r rhai sy'n gwneud ewyllys Duw yn ddigon yn ei hun

Mae'r camau sy'n arwain at fedydd yn cynnwys edifarhau am ein pechodau ac ymwrthod ag arferion drwg (*w13*-E 3/15 17, blwch)

I ymgysegru i Dduw rhaid ymwadu â hunan yn wirfoddol (Mth 16:24; *w05*-E 3/15 11-12 ¶8)

Wedi inni ymgysegru mewn gweddi, mae'n briodol ei symboleiddio'n gyhoeddus trwy fedydd dŵr (Mth 28:19; Rhu 10:10)

Wedi'n bedyddio, neu'n gweithio tuag at fedydd, rhaid ymwrthod â chwrs hunanol

Ffowch oddi wrth anfoesoldeb rhywiol **[Darllena 1 Corinthiaid 6:18-20]**

Cefnwch ar gymdeithion ac ar adloniant sy'n hyrwyddo meddyliau ac ymddygiad aflan (Eff 5:3; *g*-E 9/13 5)

Peidiwch â datblygu cariad at eiddo materol, a pheidiwch â cheisio cyfoeth (1Ti 6:9, 10)

Fe ddywedodd Iesu: "Allwch chi ddim bod yn was i Dduw ac i arian ar yr un pryd" (Mth 6:19-24, *beibl.net*)

Fel efelychwyr Crist, dylen ni dreulio'n hamser a'n hegni yn helpu eraill

Rhowch help llaw iddyn nhw ddysgu'r gwir am Jehofa Dduw a'i Deyrnas (Mth 9:36-38)

Byddwch yn hael ac yn wylaidd wrth eu helpu, a gofalwch am eu hanghenion (In 13:3-5, 12-15; *w15*-E 2/15 8-9 ¶14-16)

CRYFHEWCH EICH PENDERFYNIAD O FYW YN ÔL EWYLLYS DUW (3 mun.)

Mae'n rhaid inni atgoffa'n hunain yn gyson o'n dibyniaeth ar Dduw ac Iesu

Yn ein gweddïau, rhaid cydnabod mai o Dduw y cawson ni fywyd, a bod ein dyfodol yn dibynnu ar ein ffydd yn y pridwerth

Gwnewch benderfyniadau, nid fel rhywun annibynnol, ond fel gwas i'r gwir Dduw

O gryfhau ein penderfyniad i wneud ewyllys Duw, gallwn ni fwynhau bendithion tragwyddol **[Darllena Rhufeiniaid 6:22]**

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169]

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania